



British Heart
Foundation
Cymru

Presgripsiwn ar gyfer gostyngiad o 25% mewn marwolaethau cynamserol o CVD erbyn 2035

Mae ar Galonnau Cymru Angen Mwy

Diagnosis: *Colli degawd o gynnydd*

- Mae clefyd cardiofasgwlaidd (CVD) yn dal yn un o brif achosion marwolaeth yng Nghymru bob blwyddyn ond collwyd y momentwm o ran mynd i'r afael â CVD ers canol y 2010au.
- Mae cyfradd marwolaethau pobl o dan 75 oed o CVD yn dal yn uwch nag yr oedd cyn y pandemig ac, yn 2024, roedd 17% yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr.¹
- Yng Nghymru, dim ond 1 mewn 20 o bobl sy'n goroesi ar ôl ataliad y galon yn rhywle heblaw ysbyty (OHCA), o'i gymharu ag 1 mewn 10 yn Lloegr a'r Alban.²

Treatment Plan/Cynllun Triniaeth:

Allwn ni ddim caniatáu i Gymru gael ei gadael ar ôl o ran iechyd y galon. Mae BHF Cymru yn galw ar bob plaid wleidyddol i gynnwys ymrwymiad clir yn eu manifestio i sicrhau gostyngiad o 25% mewn marwolaethau cynamserol o CVD yng Nghymru dros y degawd nesaf – yn unol â tharged Llywodraeth y DU ac uchelgais BHF. Os cyrhaeddir y targed hwn, mae BHF yn amcangyfrif y gellid achub tuag 800 o fywydau yn 2035 yn unig.³

Er mwyn cyrraedd y targed o 25% erbyn 2035, Mae ar Galonnau Cymru Angen Mwy o:



1. Atal

Rhwystro clefyd cardiofasgwlaidd cyn iddo ddechrau




2. Gofal

Sicrhau bod gofal amserol, cyfartal a pherson-ganolog ar gael i bawb sydd â chlefyd cardiofasgwlaidd



3. Dealltwriaeth

Cryfhau data cardiofasgwlaidd er mwyn cael gwell canlyniadau i gleifion



BHF-CYMRU-GALWADAU'R-YMGYRCH

Signature of Prescriber/Llofnod y Presgripsiynydd

British Heart Foundation Cymru

Prescription Duration

Hyd y Presgripsiwn

2035 (10 mlynedd)



Mae manylion y presgripsiwn dros y dudalen



1. Atal

Rhwystro clefyd cardiofasgwlaidd cyn iddo ddechrau

Cyhoeddwyd Cynllun Atal CVD Cymru ym mis Medi 2025 ac mae'n targedu cyflyrau clinigol risg uchel: ffibriliad atrïaidd, pwysedd gwaed uchel, colesterol uchel, a diabetes. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o'r risg o CVD, helpu i adnabod cyflyrau risg uchel yn gynnar, a gwella prosesau rheoli a chefnogi ar ôl diagnosis. Yn ogystal, mae'r cynllun yn edrych yn ehangach ar atal afiechyd a hybu iechyd ac mae'n tynnu sylw at yr angen i fyw bywydau iachach a mwy egniol. Mae uchelgeisiau'r cynllun yn addawol, ond rhaid inni weld ei fod yn cael ei ariannu'n llawn trwy ddyrannu cyllideb ar gyfer atal CVD, ei yrru gan arweinyddiaeth wleidyddol eofn, a'i gynnal gan lywodraethu tryloyw i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni a'i fod yn effeithiol.



2. Gofal

Sicrhau bod gofal amserol, cyfartal a pherson-ganolog ar gael i bawb sydd â chlefyd cardiofasgwlaidd

Rhaid inni weld fframwaith a gydnabyddir trwy'r wlad ac sy'n cyflwyno disgwyliadau, safonau ac atebolrwydd clir ar gyfer gofal cardiofasgwlaidd er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i gleifion. P'un bynnag a yw'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau ar y Galon yn cael ei ddiweddarau a'i gryfhau, neu fod rhywbeth arall yn cymryd ei le, rhaid cynnal fframwaith y tu hwnt i etholiad nesaf y Senedd. Er mwyn sicrhau cysondeb, cydgysylltiad ac arloesedd wrth roi fframwaith o'r fath ar waith ar draws byrddau iechyd Cymru, mae'n hanfodol cael grŵp arweinyddiaeth glinigol gardiaidd, gydag Arweinydd Clinigol Cardiaidd. Mae rôl Arweinydd Clinigol Cardiaidd yn golygu y gellir goruchwyllo'r gweithlu cardiaidd trwy'r wlad, o adeg y canfod a'r diagnosisio i gyfnod y driniaeth a'r adsefydlu cardiaidd, er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol gofal iechyd wedi'u cyfarparu a'u cefnogi'n llawn.



3. Dealltwriaeth

Cryfhau data cardiofasgwlaidd er mwyn cael gwell canlyniadau i gleifion

Er mwyn gwneud mwy i atal marwolaethau cynamserol o CVD, rhaid inni ddeall yn gyntaf ble a pham y maent yn digwydd. Ar hyn o bryd, mae bylchau sylweddol yn y data ar gyfer Cymru yn cyfyngu ar ein gallu i wybod pa feysydd i'w gwella er mwyn achub mwy o fywydau. Ni wyddom a yw cyflyrau risg uchel fel pwysedd gwaed uchel yn cael eu trin yn effeithiol ym maes gofal sylfaenol, ni wyddom sawl achos o ataliad y galon sy'n digwydd yn rhywle heblaw ysbyty (OHCA's), na ble na phryd y maent yn digwydd, ac ni wyddom pryd mae rhywun sy'n digwydd bod gerllaw yn rhoi CPR neu'n diffibrilio. Heb y wybodaeth sylfaenol hon, ni allwn helpu i atal digwyddiadau cardiaidd fel strôc a thrawiad ar y galon, ac ni allwn herio na gwella'r cyfraddau ar gyfer goroesi OHCA yng Nghymru. Er mwyn newid hyn, mae arnom angen cronfa ddata genedlaethol gofal sylfaenol sy'n coladu data yn awtomatig ar gyffredinrwydd, rheoli a thrin cyflyrau CVD risg uchel, ochr yn ochr â darparu cofrestr OHCA i Gymru. Gyda'r data hyn, gellir sicrhau llwybrau gofal mwy effeithiol a thargeddu adnoddau'n well i leihau nifer y marwolaethau y gellir eu hosgoi yng Nghymru.

Os hoffech wybod rhagor, ebostiwch edwardsb@bhf.org.uk

Cyfeiriadau

1. BHF 2025, dadansoddiad o ddata marwolaethau SYG 2024.
2. BHF Cymru, 2025. BHF Statistics Factsheet.
3. BHF 2025, amcanestyniadau yn defnyddio dadansoddiad o ddata'r SYG ar ragolygon marwolaethau a'r boblogaeth.